# Cofnodion wedi'u Cadarnhau

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:** | **Cyfarfod Bwrdd CNC – Cyhoeddus**<br>**Roedd Pawb yn Bresennol dros Teams** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 20 Ionawr 2021 |
| **Aelodau'r Bwrdd a oedd yn Bresennol:** | Syr David Henshaw (Cadeirydd)<br>Clare Pillman, Prif Weithredwr<br>Yr Athro Steve Ormerod, Is-gadeirydd<br>Karen Balmer<br>Chris Blake<br>Catherine Brown<br>Julia Cherrett<br>Geraint Davies<br>Howard Davies<br>Dr Elizabeth Haywood<br>Zoë Henderson<br>Dr Rosie Plummer<br>Yr Athro Peter Rigby |
| **Aelodau o'r Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol:** | Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol<br>Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu (Absennol 11-12)<br>Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid<br>Martyn P Evans, Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru (yn Dirprwyo ar gyfer Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau)<br>Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol |
| **Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:** | Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (yr holl eitemau)<br>Naomi Lawrence, Pennaeth Profiad y Cwsmer Eitem 6<br>Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu Eitem 6<br>Kate Evans, Materion Cyhoeddus/Ysgrifennydd Personol y Prif Swyddog Gweithredol Eitem 6<br>Steve Morgan, Pennaeth Gweithrediadau De-ddwyrain Cymru Eitem 7<br>Jon Goldsworthy, Pennaeth Gweithrediadau Eitem 7<br>David Letellier, Pennaeth Gweithrediadau Tir ac Asedau Eitem 7 |
| **Arsylwyr:** | Berry Jordan (Vattenfall) |

| | |
|---|---|
| | Gareth Wardell |
| **Datganiadau:** | Ni nodwyd unrhyw ddatganiadau. |
| **Ymddiheuriadau:** | Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau. |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Natalie Williams<br>Rhiannon Spencer |

## Eitem 1. Agor y Cyfarfod

1. Agorodd y Cadeirydd y Cyfarfod a chroesawu pawb. Ni nodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Gweithredu

## 2A. Adolygu Cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd

2. Adolygwyd a chytunwyd ar gofnodion y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Tachwedd.

## 2B. Adolygu'r Cofnod Gweithredu

3. Adolygwyd a chytunwyd ar y cofnod gweithredu.

## Eitem 3: Busnes y Cadeirydd

4. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad i'r Bwrdd ar gyfarfod y Gweinidogion a gynhaliwyd ar 18 Ionawr; roedd amrywiaeth o faterion wedi cael eu trafod, gan gynnwys llifogydd. Roedd Adroddiad Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd i gael ei gyhoeddi yr wythnos honno.

5. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud sylw, yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ar y cynnydd a wnaed o ran cydymffurfedd gwerthiant pren. Roedd cyllid ar gael i gefnogi mentrau Adferiad Gwyrdd, a byddai cais yn cael ei wneud am ail rownd o gynlluniau ym mis Chwefror.

## Eitem 4: Adroddiad y Prif Weithredwr

6. Nododd y Prif Weithredwr fod hwn wedi bod yn gyfnod heriol i CNC. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y tri maes digwyddiadau: llifogydd, COVID a gadael yr UE.

7. Cafwyd diweddariad ar lifogydd gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, a oedd yn gweithredu yn rôl y Rheolwr Strategol Dyletswyddau. Roedd 58 o rybuddion llifogydd ar waith ar y pryd ar hyd a lled y wlad, ac roedd y gwaith modelu a'r wybodaeth yn cael eu rhannu â phartneriaid. Roedd Llywodraeth Cymru yn cael ei briffio cyn y cyfarfod COBRA.

8. Amlinellwyd heriau'r weithred o adael yr UE. Roedd y gweithgarwch cyfredol yn canolbwyntio ar sicrhau bod partneriaid a rhanddeiliaid yn deall y dirwedd newydd, cefnogi Llywodraeth Cymru gyda'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol, ac ystyried y

goblygiadau hirdymor. Y ddau brif faes risg oedd canlyniadau Deddf y Farchnad Fewnol ar gyfer y setliad datganoledig, ynghyd â Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd, a hynny am nad oedd yna unrhyw fesurau dros dro ar waith yng Nghymru, yn wahanol i weddill y DU.

9. Cyflëwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am COVID i'r Bwrdd. O ganlyniad i symud i gyfyngiadau haen pedwar ychydig cyn y Nadolig, cafwyd problemau o ran y defnydd o dir ar gyfer y cyhoedd. Bu cynnydd yn nifer staff CNC yr effeithiodd COVID arnynt, ac roedd sawl un yn addysgu ei blant gartref. Blaenoriaeth CNC oedd sicrhau bod staff, partneriaid a'r cyhoedd yn cadw'n ddiogel.

10. Roedd CNC wedi cael cais ffurfiol am gydgymorth gan Went, ac roedd yn disgwyl rhagor o geisiadau o fannau eraill. Roedd proses wedi cael ei sefydlu i hwyluso gwirfoddolwyr, ac roedd yr aelodau staff cyntaf wedi cael eu trosglwyddo yr wythnos flaenorol i gynorthwyo gyda'r broses tracio ac olrhain. Roedd dull seiliedig ar risg yn cael ei ddefnyddio i reoli hyn er mwyn sicrhau y gallai CNC barhau i gynnal ei alluogrwydd o ran bod yn ymatebwr categori un. Roedd COVID-19 hefyd yn effeithio ar gontractwyr, er enghraifft y rheiny a oedd yn plannu coed. Roedd yn rhaid i CNC flaenoriaethau, fel llawer o randdeiliaid eraill, yn seiliedig ar ddiogelu'r cyhoedd a'r economi. Byddai'n rhaid oedi rhai meysydd gwaith, er enghraifft trafodaethau dilynol ynghylch y Datganiadau Ardal.

11. Er gwaethaf yr holl heriau, roedd nifer o brosiectau pwysig wedi cael eu cwblhau. Byddai Ffordd Goedwig Cwm-carn yn ailagor yn y gwanwyn, ac roedd Cynllun Llifogydd Crindai wedi'i gwblhau. Daeth yr Adolygiad Barnwrol ar drwyddedu rhywogaethau i ben yr wythnos flaenorol, a chanfuwyd bod y trwyddedau'n gyfreithlon. Byddai'r Adroddiad SoNaRR yn cael ei lansio yr wythnos ddilynol.

12. Holodd aelodau'r Bwrdd a oedd yna allu digonol i ddarparu cyngor cynllunio a mapiau llifogydd cyfredol i awdurdodau lleol, a hefyd pa mor barod yr oedd CNC ar gyfer llifogydd yn y dyfodol. Rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd fod gwaith rhagweithiol yn mynd rhagddo i roi cyngor i awdurdodau lleol. Roedd yr hyn a ddysgwyd o'r Adolygiad o Lifogydd diweddar yn cael ei ddefnyddio, ac yn amlwg yn y newid o ran tôn ac amlder y rhybuddion am lifogydd, a oedd bellach yn rhoi gwybod i bobl yn gynt ac yn egluro'r camau gweithredu priodol y dylid eu cymryd yn y tri chategori. Roedd paratoadau eraill wedi cynnwys cynnal sgyrsiau â phartneriaid i'w helpu i fod yn barod, a sicrhau bod yna staffio dwbl ar y rotas.

13. Gofynnodd y Bwrdd am sicrwydd bod materion hirdymor yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r gwaith byrdymor o reoli digwyddiadau mewn perthynas â gadael yr UE. Eglurodd y Prif Weithredwr fod yna ddau linyn o waith cydamserol yn mynd rhagddynt a oedd yn cwmpasu'r ddau fater. Byddai CNC yn parhau i gyfleu eglurder ynghylch gweithrediadau ac unrhyw newidiadau i'r rhanddeiliaid a'r staff.

14. Nododd aelodau'r Bwrdd y byddent y gwerthfawrogi ystyriaeth o'r cydbwysedd rhwng risgiau ac adnoddau, yn ogystal ag o'r goblygiadau o ran llywodraethu mewn perthynas â sicrhau bod cydgymorth yn cael ei oruchwylio mewn modd priodol.

**CAM GWEITHREDU: PaRC i fonitro ystyriaeth o'r cydbwysedd rhwng risgiau ac adnoddau, yn ogystal ag o'r goblygiadau o sicrhau goruchwyliaeth briodol o gydgymorth. – Yr Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu hyn at ragolwg PaRC**

## Eitem 5: Adroddiadau Diweddaru y Pwyllgorau

15. Y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth – adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth yn ôl ar gyfarfod cyntaf y pwyllgor, gan nodi bod nifer da o aelodau allanol wedi dod iddo. Roedd y rheiny a oedd yn bresennol wedi cael gwybod sut yr oedd y

swyddogaeth gwybodaeth a thystiolaeth yn gweithio, ac roedd cyflwyniadau wedi darparu trosolwg o'r gwaith a oedd yn cael ei wneud yn CNC.

16. Y Pwyllgor Rheoli'r Adolygiad o Lifogydd – adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli'r Adolygiad o Lifogydd yn ôl i'r Bwrdd ar y ddau gyfarfod diwethaf. Byddai Bwrdd y Rhaglen Llifogydd yn parhau, gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu yn rôl yr Uwch-swyddog Adrodd, ac roedd yn fodlon ar y cynnydd a oedd yn cael ei wneud. Ni allai'r holl weithgarwch gael ei gyflawni heb adnoddau ychwanegol, ac roedd y Pwyllgor wedi argymell y dylid penodi saith aelod newydd o staff. Roedd CNC wedi llwyddo i sicrhau £3.5 miliwn yn rhagor o gyllid llifogydd.

17. Cynhaliodd y Pwyllgor ddadansoddiad dwfn o risg o ran Rheoli Digwyddiadau yn Effeithiol. Byddai papur ar Gynlluniau Llifogydd Cyfalaf yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mawrth. Rhoddodd y Bwrdd ganmoliaeth i'r holl staff a oedd wedi cymryd rhan yn y gwaith. Nodwyd bod strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar lifogydd yn ei gwneud yn ofynnol i CNC arwain nifer o feysydd newydd, y byddai angen adnoddau ychwanegol ar eu cyfer. Ni allai CNC ymgymryd â'r gwaith hwn ar ei ben ei hun, a byddai angen iddo fod yn glir ynghylch yr hyn a oedd yn bosibl.

18. Y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol – nodwyd mai dim ond dau o'r pedwar aelod o'r Bwrdd a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, a bod hynny wedi amlygu'r angen i adolygu'r gofynion o ran cworwm. Roedd y Pwyllgor yn falch o'r cymorth i gyflogeion a ddarparwyd trwy'r Arolwg Pwls a'r gwaith Llesiant ac Iechyd a Diogelwch. Roedd cynllunio ar gyfer olyniaeth hefyd wedi cael ei drafod.

## Eitem 6: Strategaeth Profiad y Cwsmer ac Ymgysylltu

Naomi Lawrence, Pennaeth Profiad y Cwsmer, Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu, Kate Evans, Materion Cyhoeddus/Ysgrifennydd Preifat i'r Prif Swyddog Gweithredol

19. Darparodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol gyd-destun ar gyfer y Strategaeth, a gafodd ei nodi, a gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r broses lefel uchel o weithredu'r Strategaeth a chytuno i gefnogi cynnydd a datblygiad trwy'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol.

20. Cyflwynodd y Pennaeth Profiad y Cwsmer gefndir y Strategaeth i'r Bwrdd, ynghyd â throsolwg ohoni.

21. Roedd y Bwrdd yn cefnogi'r Strategaeth a'r camau nesaf, sef ymgysylltiad allanol ac ystyried y matrics. Roedd yna gynlluniau ar y gweill i sicrhau meincnodi allanol trwy'r Sefydliad Gwasanaeth Cwsmeriaid, a byddai CNC yn cofrestru ar gyfer ymarfer meincnodi ac achredu nesaf y DU.

22. Cafwyd trafodaeth ynghylch buddion Strategaeth gref. Dywedodd aelodau'r Bwrdd y byddent yn dymuno gweld rhywbeth mwy penodol am y Gymraeg, yn ogystal ag am gymryd rhan yn y gwaith o fapio a rheoli rhanddeiliaid, a chroesawyd hynny gan y tîm.

23. Awgrymwyd ei bod yn ofynnol adolygu'r cydbwysedd rhwng amcanion y rhanddeiliaid ac amcanion CNC mewn mannau er mwyn sicrhau bod yna ddigon o hyblygrwydd.

24. Croesawodd y Bwrdd y Strategaeth, gan ganmol y dull a ddefnyddiwyd. Nodwyd y byddai angen i'r Bwrdd, yn y dyfodol, drafod cydbwysedd ei rôl o fod yn rheoleiddiwr ac yn ymgyrchydd.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd y Strategaeth Profiad y Cwsmer ac Ymgysylltu.**

## Eitem 7: Cyflwyniad Lle: De-ddwyrain Cymru

Steve Morgan, Pennaeth Gweithrediadau De-ddwyrain Cymru, Jon Goldsworthy, Rheolwr Gweithrediadau a David Letellier, Rheolwr Gweithrediadau Tir ac Asedau

25. Cyflwynodd Pennaeth Gweithrediadau De-ddwyrain Cymru y Cyflwyniad Lle i'r Bwrdd. Roedd yn adlewyrchu'r dyheadau ac yna'r cynnydd a wnaed yn ystod y ddwy flynedd flaenorol ers ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Ionawr 2019.

26. Disgrifiodd y Rheolwr Gweithrediadau ddigwyddiadau yr oedd y tîm wedi ymateb iddynt yn ystod y flwyddyn flaenorol, gan gynnwys achosion o lygredd, gwaith heb ei awdurdodi ar afonydd, a materion yn ymwneud â rheoli gwastraff. Cafwyd dros 1,000 o ddigwyddiadau yn Ne-ddwyrain Cymru y flwyddyn flaenorol, ac roedd yna 109 o safleoedd gwastraff trwyddedig. Roedd y tîm yn gofalu am 47 o safleoedd a reolid gan ddiwydiant yn y rhanbarth.

27. Disgrifiodd y Rheolwr Gweithrediadau Tir ac Asedau weithgarwch rheoli dŵr yn y rhanbarth, yn ogystal â gwaith cynnal a chadw amddiffynfeydd rhag llifogydd. Roedd rheoli tir yn rhan bwysig o weithgarwch y tîm, a hynny'n cynnwys gweithrediadau mewn coedwigoedd. Roedd prosiectau llwyddiannus y flwyddyn honno yn cynnwys Ffordd Goedwig Cwm-carn, a oedd i agor yn y gwanwyn.

28. Nododd y Cadeirydd fod y cyflwyniad yn adlewyrchu cymhlethdod yr hyn yr oedd CNC yn delio ag ef, yn ogystal â'r heriau, a bod yr holl agweddau ar ei waith yn gysylltiedig. Trafododd y Bwrdd yr hyn a allai gael ei wneud i helpu tirfeddianwyr a ffermwyr i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ansawdd a swm dŵr. Dangosodd y Bwrdd ddiddordeb mewn ymweld â Gwastadeddau Gwent yn ystod cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol agos.

**CAM GWEITHREDU: Yr ysgrifenyddiaeth i drefnu ymweliad gan y Bwrdd â Gwastadeddau Gwent yn y dyfodol, pan fyddai'r cyfyngiadau cyfredol wedi dod i ben.**

**CAM GWEITHREDU: Pennaeth Gweithrediadau De-ddwyrain Cymru i ymateb y tu allan i'r cyfarfod i gwestiwn Zoe Henderson ynghylch yr hyn a allai fod yn sbarduno'r cynnydd yn nifer y newidiadau anawdurdodedig i afonydd.**

**Diwedd Cyfarfod y Bwrdd**

## Eitem 8. Sesiwn Holi ac Ateb Gyhoeddus

29. Cyflwynodd y Cadeirydd y sesiwn gyhoeddus, a gwahoddodd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd y cyhoedd i ddarllen eu cwestiynau i'r Bwrdd.

30. Daeth cwestiwn i law'r Bwrdd gan Gareth Wardell:

*“Mae cyllideb niwtral CNC ar gyfer 2021-2022 yn ddealladwy yng ngoleuni blaenoriaethau cyllido y Llywodraeth ar gyfer y GIG, ein gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a'n system Addysg. A yw'r Bwrdd yn derbyn bod canlyniadau anfwriadol y tanariannu blynyddol parhaus hwn yn tanbrisio'r buddion hirdymor sy'n llifo o'n seilwaith amgylcheddol, gan felly rwystro gallu CNC i gyflawni'r targedau a nodir yn y Llythyr Cylch Gwaith gan Weinidog yr Amgylchedd?”*

31. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at y ffaith y byddai CNC, mewn gwirionedd, yn wynebu bwlch o £15 miliwn (£10 miliwn o ran refeniw a £5 miliwn o ran cyfalaf) o ganlyniad i newid technegol yn y cyfrifyddu, a hynny er bod y gyllideb, yn dechnegol, yn niwtral.

Roedd CNC mewn trafodaeth ddyddiol â Llywodraeth Cymru, ac roedd y Cadeirydd wedi codi'r mater gyda'r Gweinidog ddydd Llun.

32. Dilynwyd hyn gan gwestiwn ategol:

*“Mae'r Cabinet ar fin derbyn y cyngor gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd ynglŷn â chamau gweithredu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, ond ni all Cymru gyrraedd y targed sero net oni bai fod CNC yn helpu i blannu 21,000 hectar o goed ar Ystad Coetir Llywodraeth Cymru erbyn 2025. Onid yw hyn yn afrealistig?”*

33. Ymatebodd y Prif Weithredwr trwy ddweud bod yna gynllun ar waith i gynyddu'r gwaith o blannu coed ar Ystad Coetir LlC, ond na fyddai hynny'n bodloni'r targed yn llwyr. Llwybr arall fyddai i CNC gefnogi rheolwyr tir eraill i gynyddu'r gwaith o blannu coed.

34. Nododd Geraint Davies y byddai plannu gwrychoedd yn gwneud cyfraniad sylweddol o ran cyflawni'r targed sero net, yn hytrach na chanolbwyntio ar blannu coed yn unig.

35. Dilynwyd hyn gan gwestiwn ategol arall:

*“O ran y 21,000 hectar y mae angen eu plannu, pa ganran o'r coed newydd a blennir a fydd ar Ystad Coetir Llywodraeth Cymru?”*

36. Dywedodd y Prif Weithredwr fod CNC yn bwriadu estyn Ystad Coetir Llywodraeth Cymru 1,700 hectar.

37. Daeth cwestiwn i law'r Bwrdd gan Berry Jordan (Vattenfall):

*“Pwy yn Llywodraeth Cymru a fydd yn penderfynu pryd y bydd Ystad Coetir Llywodraeth Cymru yn mynd i dendr ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy?”*

38. Roedd Berry Jordan eisoes wedi gadael y cyfarfod, felly byddai'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol yn darparu ymateb ysgrifenedig. Gweinidog Cymru a fyddai'n gwneud y penderfyniad. Roedd yna arwydd clir a dymuniad i edrych ar fodelau newydd trwy safle peilot Brechfa Dau, ac roedd CNC yn rhan o grŵp llywio ar y cyd â Llywodraeth Cymru i ddatblygu un fframwaith cydgysylltiedig ar gyfer Cymru.

**CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol i ysgrifennu at Berry Jordan i ateb y cwestiwn.**